

Edward Evans 1834 – 1914

Casgliad o wybodaeth bywgraffiadol o wahanol ffynonellau



Edward Evans



Parsele

Trwy law Menter Iaith Sir Benfro (Hedydd Hughes) a pherchen presennol tir Parsele, Mrs Gait.

Brief Biographical Notes

Date of birth: 1 4 1834. died 17 4 1914

born at Parselle. Hayscastle, Pembrokeshire (parish of St Edrens)

died at Parselle. Hayscastle

Buried

Newton Noddfa Baptist Chapel, Hayscastle

Father's name

George Evans, bom at Scleddau Nr Fishguard, c 1790

Mother's name

Margaret Morgan. Trerhys [?]. St Nicholas. Pembs born 1799

Seventh of 10 children - 6 boys 4 girls. All attended school

Edward attended school until age of 16. Worked on the family farm. Parselle, until the 1870s. Then farmed at Caerwen Solva, returning to Parselle m the 1880's. The old farmhouse at Parselle was demolished in the 1960s by a "tycoon" farmer.

Edward Evans was a Baptist, and attended Llangloffan Felinganol and other local places of worship

The family also farmed Henegrwys, Lertleston. which had family connections through the first wife of Edward's father Maria Bevan.

Married Elizabeth Morris [?]. Three children Martha, George and Margaret.

Edward Evans was on the Board of Guardians for the Haverfordwest Union and covered the parishes of Solve, St David's, Mathry and Llandeloy. William Evans, eldest brother of Edward, owned the printing works in Carmarthen which produced "Seren Cymru", a Baptist periodical.

Archive Photographs [AWC?]: Farmhouse at Parselle c 1860; Edward Evans, his wife Bet, and three children c 1890 [trwy law Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan]

DYDDIADURON EDWARD EVANS (1834-1914), PARSELE.

“nodi o ddydd i ddydd, Fy Helyntion am Traffertion...os byddaf yn Gweithio, nodaf natur ac ansawdd y Gwaith, os Segur neu Rhodiana, caiff ei gywir nodi:-Enwau fy nghydweithwyr ac ansawdd a natur y gwaith a fydd ar Droed-A phob peth o Bwys a Ddygwydd ym mhlith fy nghydnabod a’r Cymdogion...Hefyd:-Craffus a lawn nodaf, gyda gofal neullduol, ansawdd a natur yr Hin am bob dydd...”

Dyma agoriad dyddiadur Edward Evans, fferm Parsele, plwyf St. Edryn ar 1af Ionawr, 1850. Fe oedd y saithfed plentyn (allan o ddeg) o George a Margret Evans. Er mai ond dyn ifanc, undeg chwech oed ydoedd, cadwodd ddyddiadur am y cyfnod 1850 hyd (gyda ambell doriad) 1882. Yn Gymraeg mae’r dyddiadur wedi ysgrifennu, gyda tipyn o dafodiaeth gogledd Sir Benfro. Mae dyddiadur am pob diwrnod wedi ei rhannu yn ddwy ran. Mae’r rhan gyntaf yn son am gwaith ar y ferm. fferm o rhyw 125 o erwau oedd Parsele un tyfu gwenith, ceirch, barlys, gwair, “mangles”, erfin a tato; a chadw ceffylau, gwartheg, defaid, moch a gwyddau. Heblaw gwaith pob dydd ar y fferm mae son am Ffair Fathry (Hydref 10ed) gyda phwysigrwydd hon fel Ffair Gyflogi, Ffeiri Llanlwy a Chasnewyddbach.

Mae ail rhan pob dydd yn rhoi manylion am y tywydd., gan nodi pob awel a’i chyfeiriad, pob diferyn o law ac argoelion am yfory. Felly ar 7ed Awst, 1852 nododd : *“Ni welais erioed fath tywydd; pebasem yn llywodraethu’r tywydd, nis gallwn fyth wneud ei well. Y mae’n argol am ddiwrnod fory eto”*.

Cafodd Edward ei addysg yn Ysgol Sul ac Ysgol dyddiol Llangloffan a Ysgol Castellhaidd. Yr oedd yn mynd i Gapel y Bedyddwyr Llangloffan ac yn fynych mae’n nodi enw’r pregethwr ar testun. Ar ddydd Sul, 23ain o Mai, 1852 nododd: *“Aethum i Langloffan yn y Boreu. Price ac Evans yn pregethu yno. Y cyntaf oddiar Lefiticus XXV Ben. Ad. 8,9,10. Yr ail Mathew XVI Ben., a’r 13-17 Adnodau. Nid oes cof gennyf glywed dau pregethwr erioed cystal ar ddau hyn. Nid ydynt yn gwaeddi a Screchain fel llawer ond yn ymresynu yn ysgrhythiol; a siarad. Ie. Aethum ailwaith i Langloffan yn y Prynawn i’r Ysgol Sabbathol”*.

Heblaw ffarmio ‘roedd am sawl flwyddyn yn Swyddog Cymorth y Tlodion. Yr oedd yn gwario bron pob dydd Llun yn Hwlfordd yn “gwneuthur y llyfrau erbyn y Board”. Bu yn talu arian i tlodion plwyfi Solfach, Ty Ddewi, Mathry a Lanlwy”. Dydd Gwener, 5ed Fai, 1871: *“Talu yn Mathry y bore, dyfod yn ol erbyn cyniaw. Gorphen hau hadau yn yr offt y boreu, wedi oged o drain arnynt. Hau hadau Perci Llygadyrhaul o dan y rhowler yn y prydawn. Tafliwyd helem o wenith i mewn prydawn, bwriadwn ei dyrni a ffyst er mwyn y to. T.H. a G.C. [gwas oedd George Cole] yma”*.

Cadw at yr hen calendar oedd y teulu. Yr oedd yr Hen Nadolig ar 5ed Ionawr ar Hen Galan ar 12fed Ionawr yn bwysig tu hwnt. Yn 1853 *“Daeth George a James, meibion uncle Davy i fyny yn y boreu bach a Instruments at ganu ac aethom fyny i Drewalter at Mrs. Waters, a chafwyd gryn Spree yn ystod y dydd”*. Yn 1857 nodwyd yr arfer o fynd allan i ganu ar nos Galan *“a’r dablenn yn pasio yn dda”*.

Mae’r dyddiaduron yn ffynhonnell wych, yn rhoi manylion am fywyd bob dydd ar y fferm a manylion y tywydd yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Priododd Edward ac Elizabeth Morris a buont yn byw yn Caerwen, plwyf Llanhowell am gyfnod cyn symud nol i Parselau. Cawsant dri o blant ac mae’r teulu presennol yn byw yn Sir Benfro heddiw.

Hoffwn ddiolch i’r teulu am ganiatad i wneud gwaith ymchwil ar y dyddiaduron. Cewch gyfle i’w ddarllen y dyddiaduron eich hun yn y llyfrgell yn Hwlfordd [neu drawsgrifiadau o rai ohonynt ar wefan Llên Natur, un o brosiectau Cymdeithas Edward Llwyd (DB)].

[Trwy law Martin Roberts (gwnaed mân olygiadau DB)]